



TGAU

3010NA0-1



S18-3010NA0-1

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN UWCH

DYDD LLUN, 14 MAI 2018 – BORE

1 awr 15 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Un cwestiwn gorfodol ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
Yn y cerddi, mae'r ddau fardd yn rhoi darlun o'r hyn sy'n bosib ei wneud wrth beidio â dilyn rheolau.

Cymharwch y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges/themâu'r cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

Rhaid Peidio Dawnsio...

Rhaid peidio dawnsio yng Nghaerdydd
 rhwng wyth a deg y bore,
 mae camerâu yr Heddlu Cudd
 a'r Cyngor am y gore
 yn edrych mas i weld pwy sydd
 yn beiddio torri'r rheol
 na chaiff neb ddawnsio yng Nghaerdydd
 ar stryd na pharc na heol.

Mae dawnsio wedi deg o'r gloch
 yn weithred a gyfyngir
 i chwarter awr mewn 'sgidiau coch
 mewn mannau lle'r hebryngir
 y dawnsywyr iddynt foch ym moch,
 heb oddef stranc na neidio,
 ac erbyn un ar ddeg o'r gloch
 rhaid i bob dawnsio beidio.

Ond ambell Chwefror ar ddydd Iau,
 pan fydd y niwl a'r barrug
 yn fwgwd am y camerâu
 fel bo'r swyddogion sarrug
 yn swatio'n gynnes yn eu ffau
 gan ddal diodydd poethion,
 mae'r stryd yn llawn o naw tan ddau
 o ddawns y sodlau noethion.

Emyr Lewis

Hedfan

Pe medrwn hedfan
 Trwy ddannedd y storm
 Fe hedwn,
 A'r gwynt yn *goflaid oer
 Tros fôr tymhestlog,
 Tros donnau *drycinog.
 Teimlo'r *heli'n llosgi
 A'r ewyn yn tasgu,
 A blas rhyddid ar yr halen.

Fe hedwn tros fynydd gwyn,
 Tros rew ar lyn,
 Trwy *lluwch,
 I uchelfannau'r byd, ac uwch
 I fod yn ddall mewn byd o blu
 Ac anadlu rhyddid, i fyny fry.

Fe hedwn drwy'r taranau
 A myned i'r mannau
 Lle nad oes hualau,
 Cadwyni, rheolau.

Grug Muse

*coflaid – cwtsh
 drycinog – stormus
 heli – dŵr y môr
 lluwch – eira dwfn*

DIWEDD Y PAPUR